Gwasanaeth Gwaed Cymru

Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblannu ar gyfer y Dyfodol

Strategaeth 5 Mlynedd 2023 - 2028

Strategaeth 5 Mlynedd 2023/24 – 2027/28

Cynnwys

Rhagair **1**

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud **2**

Edrych tua'r Dyfodol **6**

Ein Gweledigaeth **8**

Ein Themâu Strategol **9**

Thema Strategol 1 - Adeiladu sylfaen gynaliadwy o roddwyr sy'n bodloni anghenion clinigol ac yn cynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu **10**

Thema Strategol 2 - Darparu profiad o'r radd flaenaf i roddwyr **12**

Thema Strategol 3 - Sbarduno'r defnydd doeth o waed ledled Cymru **14**

Thema Strategol 4 - Ansawdd, diogelwch a gwerth: ei wneud yn iawn y tro cyntaf **15**

Thema Strategol 5 - Cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, datblygu ac arloesi i wella canlyniadau i'n cleifion a'n rhoddwyr **16**

Thema Strategol 6 - Gwasanaethau cynaliadwy sy'n darparu'r gwerth gorau i'n cymunedau **18**

Thema Strategol 7 - Datblygu pobl wych a lle gwych i weithio **20**

Mesur ein Llwyddiant **24**



Rhagair

Croeso cynnes iawn i Strategaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru. Rydym yn hynod o falch o'r gofal a'r gwasanaethau rhagorol rydym yn eu cynnig i gleifion, rhoddwyr, ystod eang o bartneriaid a'n hanes o lwyddo. Mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu o bwys mawr i ni ac rydym yn gweld yn glir y gwahaniaeth y gall gwasanaeth gwaed diogel, hygyrch a chynaliadwy o ansawdd uchel ei wneud o ran ein cefnogi i wella ansawdd, diogelwch, profiad a deilliannau'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn barhaus.

Mae darparu gwasanaeth gwaed o ansawdd uchel yn rhan annatod o'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau, gan fod angen iddo ymateb yn effeithiol i anghenion ein cleifion, rhoddwyr a staff, ynghyd â'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ac anghenion ehangach y cymunedau rydym yn byw ac yn gweithredu ynddynt.

Mae Strategaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gwaed a thrawsblannu yng Nghymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n amlinellu ble'r ydym ni nawr, ble yr hoffwn fod yn 2028 a'r camau a gymerwn i gyrraedd y fan honno.

Yn bwysig, mae'n disgrifio sut byddwn yn cydweithio â'n staff, rhoddwyr, cleifion a chymunedau i sicrhau eu bod yn cael profiad diogel a phleserus, sy'n helpu i wella eu hiechyd a lles yn gyffredinol; ynghyd â'n rôl o ran gwneud cyfraniad ehangach i'r cymunedau a'r gymdeithas rydym yn eu gwasanaethu.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn un o isadrannau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae'n chwarae rôl hanfodol o ran achub miloedd o bobl, ledled Cymru a'r byd, pan fydd ei angen fwyaf arnynt. Ni yw prif gyflenwr cynhyrchion gwaed i Gymru.

Ymdrechwn i ddarparu'r profiad gorau posibl i'n rhoddwyr a chynnig gwasanaethau labordy, diagnostig a thrawsblannu diogel, modern ac effeithlon o ansawdd uchel.

Mae arweinyddiaeth a llywodraethu clinigol a gwyddonol cryf yn helpu i sicrhau bod ansawdd ein gwasanaeth yn parhau i fod â rhan flaenllaw yn ein penderfyniadau. Caiff y sicrwydd hwn ei gynnal trwy ein hymrwymiad i sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn bodloni safonau uchel ein rheoleiddwyr a'n harchwilwyr, fel yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA), Gwasanaethau Achredu'r DU (UKAS) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Mae gwaed a thrawsblannu'n faes gofal iechyd sy'n esblygu ac sy'n cwmpasu set o sgiliau eang a throsglwyddadwy.



Rydym yn darparu'r gwasanaethau arbenigol canlynol:

- Casglu rhoddion gwaed, platennau a bôn-gelloedd gwirfoddol heb dâl gan y cyhoedd.
- Prosesu a phrofi rhoddion gwaed.
- Dosbarthu cydrannau gwaed i 18 ysbyty ledled Cymru.
- Rhoi cyngor ac arweiniad ar ddefnydd priodol o gydrannau gwaed i fyrddau iechyd ledled Cymru.
- Darparu gwasanaeth sgrinio cyn-geni i ysbytai.
- Gwasanaethau labordy arbenigol, gan helpu i ymchwilio i broblemau serolegol cymhleth.
- Labordy Trawsblannu ac Imiwnogeneteg Cymru, sy'n darparu cyngor profi a chlinigol ar gydweddoldeb a dewis rhoddwyr i ddarparwyr lleol Gwasanaethau Trawsblannu Arennau a Bôn-gelloedd.
- Gweithredu panel o roddwyr bôn-gelloedd gwaed posibl nad ydynt yn berthnasau – Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru – sy'n allforio bôn-gelloedd i gleifion ledled y byd ac yn mewnforio bôn-gelloedd i gleifion yng Nghymru.
- Cynnal cynllun asesu ansawdd allanol y DU, sef y Gwasanaeth Asesu Ansawdd Allanol Cenedlaethol (NEQAS) ar gyfer histogydnawsedd ac imiwnogeneteg a Chynllun Asesu Hyfedredd Serolegol Cymru (WASPS), sy'n cyfrannu at gynnal safonau ansawdd yn y gymuned trallwyso a thrawsblannu.
- Dal trwydded cyfanwerthu i gyflenwi cynhyrchion meddyginiaethol sy'n deillio o waed (GIG a masnachol) i'n hysbytai sy'n gwsmeriaid eu prynu.
- Cynorthwyo GIG Cymru i sicrhau y caiff gwaed ei ddefnyddio'n briodol ac yn bwyllog trwy hwyluso a chynghori'r Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol.
- Darparu cymorth logistaidd i'r GIG, gan gynnwys storio a dosbarthu brechlyn y Coronafeirws yn ystod y pandemig.

Ysbytai sydd ein cwsmeriaid

1. Ysbyty Bronglais
2. Ysbyty Athrofaol Llandochau
3. Ysbyty Treforys
4. Ysbyty Neuadd Nevill
5. Ysbyty'r Tywysog Siarl
6. Ysbyty Tywysog Philip
7. Ysbyty Tywysoges Cymru
8. Ysbyty Brenhinol Morgannwg
9. Ysbyty Brenhinol Gwent
10. Ysbyty Singleton
11. Ysbyty Athrofaol Y Faenor
12. Ysbyty Athrofaol Cymru
13. Ysbyty Llwynhelyg
14. Ysbyty Glan Clwyd
15. Ysbyty Glangwili
16. Ysbyty Gwynedd
17. Ysbyty Maelor Wrecsam
18. Ysbyty Ystrad Fawr

Popeth sydd angen ei wybod arnoch chi...

Rhoddwyr gwaed
Rydym yn anelu at gasglu tua 100,000 o roddion gwaed cyflawn bob blwyddyn. Mae angen tua 300 o roddion gwaed bob dydd arnom i ateb anghenion cleifion. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda 4,000 o eiriolwyr mewn cymunedau i hyrwyddo pwysigrwydd rhoi mêr esgyrn.

Rhoddwyr Platennau
Cydran gwaed ydy platennau. Celloedd bach yn eich gwaed ydyn nhw sy'n ffurfio clotiau, ac maen nhw'n hanfodol er mwyn helpu cleifion i ymladd clefydau cronig, canserau ac i wella o anafiadau trawmatig.

Rydym yn cynhyrchu tua 11,000 o roddion platennau bob blwyddyn, gyda 40% ohonynt yn dod o'n rhoddwyr platennau. Er mwyn ateb y galw hwn, mae angen 56 o roddwyr platennau newydd arnom bob blwyddyn.

Gwirfoddolwyr Mêr Esgyrn
Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru ydy panel o roddwyr sydd wedi gwirfoddoli i ddod yn rhoddwyr bôn-gelloedd (rhoi mêr esgyrn neu fôn-gelloedd gwaed perifferol). Mae trawsblaniadau bôn-gelloedd yn cael eu defnyddio i drin mathau penodol o ganser, gan gynnwys canser y gwaed ac anhwylderau'r gwaed, y system imiwnedd ac anhwylderau metabolaidd eraill.

Ar hyn o bryd, mae tua 72,000 o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar banel gwirfoddolwyr Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru. Mae angen tua 4,000 o roddwyr i ymuno â'r panel bob blwyddyn. Cafwyd 32 o roddion bôn-gelloedd gan roddwyr Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn 2022.



Edrych tua'r Dyfodol

Mae dyfodol gwasanaethau gwaed a thrawsblannu yng Nghymru yn gyffrous. Byddwn yn ceisio:

- Adeiladu ar ein gwasanaethau a'n galluoedd presennol i wella'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd; a

- Datblygu ystod newydd o wasanaethau ac arbenigedd i gefnogi datblygiad gofal iechyd a lles ledled Cymru. Bydd ein meysydd ffocws yn cynnwys casglu plasma ar gyfer meddyginiaethau a chefnogi cydnerthedd cenedlaethol o ran cyflenwi cynhyrchion sy'n deillio o blasma.



Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth 'Cyrchfan 2033' Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sy'n pennu cyfeiriad clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Rydym wedi sefydlu menter Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru i fod yn gyfrwng i gyflawni ein dyheadau a llywio ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Bydd **Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru** yn ein galluogi i:

- Yrru diwylliant o ragoriaeth
- Rhoi arweinyddiaeth glinigol ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol
- Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio gyda'n staff, ein rhoddwyr a'r cyhoedd
- Datblygu model y gwasanaeth a chyfluniad gwasanaeth yn y dyfodol

Mae ein chwe ffrwd waith allweddol yn cwmpasu:

- Rhaglen Seilwaith Tonysguboriau
- Rhaglen Plasma ar gyfer Meddyginiaethau
- Rhaglen Cofrestrfa Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru
- Rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Labordy
- Rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Casglu Gwaed
- Rhaglen Moderneiddio Digidol

Ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn rhoi dyletswydd ar GGC i ystyried y 6 maes ansawdd ym mhopeth a wnawn. Mae ansawdd yn golygu gofal iechyd diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, teg ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sydd wedi'i wreiddio mewn diwylliant a dysgu a gwella'n barhaus. Rydym wedi amlygu sut mae ein themâu strategol yn ein helpu i gyflawni hyn.

Ein Gweledigaeth

Cael ein cydnabod gan bobl Cymru a'n cymheiriaid fel arweinydd mewn gwasanaethau trawsblannu a thrallwyso

Ein Themâu Strategol

	Adeiladu sylfaen gynaliadwy o roddwyr sy'n bodloni anghenion clinigol ac yn cynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.
	Darparu profiad o'r radd flaenaf i roddwyr.
	Sbarduno'r defnydd doeth o waed ledled Cymru.
	Ansawdd, diogelwch a gwerth: ei wneud yn iawn y tro cyntaf.
	Cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, datblygu ac arloesi i wella canlyniadau i'n cleifion a'n rhoddwyr.
	Gwasanaethau cynaliadwy sy'n darparu'r gwerth gorau i'n cymunedau.
	Datblygu pobl wych a lle gwych i weithio.



Thema Strategol 1:

Adeiladu sylfaen gynaliadwy o roddwyr sy'n bodloni anghenion clinigol ac yn cynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

Ein hamcanion yw:

- Ei gwneud yn hawdd i bobl yng Nghymru roi'n fynych.
- Ei gwneud yn hawdd i bobl yng Nghymru ddod yn wirfoddolwyr mêr esgyrn.
- Gwella ein profiad i roddwyr a chynyddu cyfraddau dargadw, teyrngarwch ac eiriolaeth rhoddwyr.
- Bod â'r math a'r nifer gywir o roddwyr yn y lle cywir ac ar yr amser cywir, gan gasglu dim ond yr hyn sydd ei angen ar ysbytai.
- Datblygu sylfaen o roddwyr sy'n cynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

Byddwn:

- Yn ehangu ac yn archwilio cyfleoedd partneriaeth i gynnal ein sylfaen rhoddwyr a gwella amrywiaeth trwy gydweithio â'n partneriaid.
- Yn cyflwyno technoleg newydd i adnabod rhoddwyr, ymgysylltu â nhw a'u hysgogi'n fwy effeithiol.
- Yn defnyddio mewnwelediadau ymddygiadol i ddeall ein rhoddwyr yn well a theilwra ein gweithgarwch ymgysylltu i fodloni eu hanghenion.
- Yn parhau i gydweithio ag ystod eang o randdeiliaid i ddatblygu cynllun i gynyddu nifer y rhoddwyr o gymunedau amrywiol.

Thema Strategol 2:

Darparu profiad o'r radd flaenaf i roddwyr.

Ein hamcanion yw:

- Rhoi rhoddwyr wrth wneud ein penderfyniadau gan sicrhau y caiff datblygu'r gwasanaeth ei lywio ganddyn nhw.
- Defnyddio atebion arloesol i ddarparu'r profiad gorau i roddwyr cyn, yn ystod ac ar ôl rhoi.
- Darparu gwasanaeth a phrofiad i'n rhoddwyr sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.
- Rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ein rhoddwyr i wneud dewisiadau gwybodus.

Byddwn:

- Yn datblygu Strategaeth Rhoddwyr a fydd yn ein galluogi i wreiddio llais ein holl roddwyr yn gadarn.
- Yn mabwysiadu dull dylunio sydd wedi'i seilio ar ddefnyddwyr ar gyfer datblygiadau gwasanaeth, sy'n defnyddio profiadau pobl i gynyddu'r gwerth rydym yn ei ddarparu.
- Yn rhoi ein Cynllun Datblygu Digidol ar waith i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd.
- Yn rhoi ap ar waith i roddwyr i rymuso rhoddwyr i wasanaethu eu hunain.
- Yn gwella ein gwefan i ddarparu cymorth ac adnoddau i'n rhoddwyr.



Thema Strategol 3:

Sbarduno'r defnydd doeth o waed ledled Cymru.

Ein hamcanion yw:

- Darparu arweinyddiaeth system yn y defnydd doeth o waed.
- Cynorthwyo i gynnal iechyd gwaed da ymhlith rhoddwyr ledled Cymru.
- Cydweithio â phartneriaid i ddarparu system sy'n defnyddio cydrannau gwaed mewn lleoliadau clinigol mewn ffordd effeithlon a doeth.

Byddwn:

- Yn parhau i ddatblygu ein rôl arweinyddiaeth system i gefnogi'r system gofal iechyd ledled Cymru.
- Yn cydweithio â byrddau iechyd i roi'r Cynllun Iechyd Gwaed ar waith.
- Yn cefnogi cynllunio a rheolaeth effeithiol o'r gadwyn gyflenwi gwaed, gan nodi egwyddorion arfer gorau ar gyfer rheoli stoc a defnyddio gwaed.
- Yn defnyddio tystiolaeth a data i gynorthwyo i ostwng amrywiadau y gellir eu hosgoi ar draws ysbytai yng Nghymru.
- Yn safoni addysg, gweithdrefnau, canllawiau a pholisïau i hyrwyddo arfer gorau, diogel a dull cyson ledled Cymru.



Thema Strategol 4:

Ansawdd, diogelwch a gwerth: ei wneud yn iawn y tro cyntaf.

Ein hamcanion yw:

- Rhoi'r Ddeddf Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar waith.
- Lleihau'r niwed posibl i'n rhoddwyr, cleifion a staff.
- Rhoi cyfleoedd arloesol ar waith i wella gwasanaethau er mwyn gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau rydym yn eu darparu.
- Manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau effeithlon a dim gwastraff y gellir ei osgoi.
- Meithrin diwylliant o ddysgu a gwella'n barhaus.

Byddwn:

- Yn rhoi strwythur Hwb Ansawdd ar waith sy'n goruchwylio profiad defnyddwyr y gwasanaeth, ochr yn ochr â safonau rheoleiddiol a llywodraethu clinigol, yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd.
- Yn symleiddio, digideiddio ac yn awtomeiddio ein prosesau i wella diogelwch ac effeithlonrwydd a lleihau gwastraff.
- Yn manteisio i'r eithaf ar ein hôl troed gweithredol a'n modelau staffio.
- Yn gwneud arbedion effeithlonrwydd o faint a'n harbenigedd cyfunol.
- Yn sbarduno gwelliant parhaus trwy ddefnyddio methodoleg gwella gwasanaethau, meincnodi, data a dadansoddeg, yn ogystal ag arfer gorau rhyngwladol.



Thema Strategol 5:

Cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, datblygu ac arloesi i wella canlyniadau i'n cleifion a'n rhoddwyr.

Ein hamcanion yw:

- Defnyddio ymchwil, datblygu ac arloesi i gynorthwyo i esblygu gwasanaethau presennol a datblygu gwasanaethau a chynhyrchion newydd.
- Datblygu ein capasiti a'n gallu o ran ymchwil, datblygu ac arloesi.
- Datblygu ein seilwaith ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi mwy o weithgarwch.

Byddwn:

- Yn datblygu strategaeth ymchwil, datblygu ac arloesi.
- Yn sicrhau bod ein prosesau a'n systemau yn cyd-fynd â datblygiadau mawr mewn gwyddoniaeth, seilwaith, technoleg a gwybodeg.
- Yn sefydlu ymagweddau systematig tuag at sganio'r gorwel ac yn eu hintegreiddio yn ein rhaglen ymchwil.
- Yn integreiddio setiau data system gyfan i ddatblygu mewnwelediadau.
- Yn datblygu ein capasiti ymchwil trwy gynyddu nifer y staff sy'n cyfranogi'n weithredol mewn ymchwil, datblygu ac arloesi.
- Yn cynyddu nifer y staff sy'n ymgymryd â rhaglenni ymchwil ffurfiol e.e. MSc; PhD ac ati.
- Yn nodi ac yn ffurfio partneriaeth yn weithredol gydag ystod o sefydliadau'r GIG, sefydliadau masnachol a sefydliadau academaidd i ddatblygu rhaglen gyffrous ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, sy'n cefnogi newid gweddnewidiol i'r gwasanaeth a deilliannau gwell.



Thema Strategol 6:

Gwasanaethau cynaliadwy sy'n darparu'r gwerth gorau i'n cymunedau.

Ein hamcanion yw:

- Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.
- Cyflawni statws carbon niwtral.
- Cynyddu bioamrywiaeth ein safleoedd.
- Darparu ystod eang o fuddion a gwerth i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Byddwn:

- Yn cyflawni ein cynllun datgarboneiddio ac yn trawsnewid i ynni adnewyddadwy.
- Yn gweithio ar y cyd â'r gymuned leol a'n partneriaid i roi ein cynllun bioamrywiaeth ar waith.
- Yn cydweithio â sefydliadau cymunedol lleol i ddarparu mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Defnyddio technoleg ddigidol i wella effeithlonrwydd a lleihau gwastraff.

Thema Strategol 7:

Datblygu pobl wych a lle gwych i weithio.

Ein hamcanion yw:

- Datblygu diwylliant lle mae staff yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi, bod eu barn o bwys a bod eu lles yn hollbwysig i'n cydlwyddiant.
- Creu amgylchedd sy'n galluogi i'n staff deimlo'n llawn cymhelliant a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial.
- Hyrwyddo penderfyniadau tryloyw a chydweithredol.
- Creu mannau o ansawdd uchel i weithio ohonynt a ffyrdd mwy hyblyg o weithio sy'n denu ac yn cadw'r dalent orau.

Byddwn:

- Yn datblygu ein cynlluniau gweithlu strategol i sicrhau bod gennym y bobl gywir â'r sgiliau cywir, yn y lle cywir ac ar yr amser cywir.
- Yn cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu rhagorol a llwybrau gyrfa hyblyg.
- Yn cyflawni gwaith mwy integredig a chydweithredol â'r byd iechyd, addysg a diwydiant gan sicrhau y datblygir amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel sydd wedi'u galluogi gan dechnoleg.
- Yn cefnogi mwy o hyfforddiant a datblygiad academaidd a galwedigaethol i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer pob llwybr mynediad a sicrhau cynhwysiant.
- Yn gwella ein hymagwedd tuag at gynllunio olyniaeth trwy roi ein cynllun rheoli talent ar waith.
- Yn adnewyddu ein hadeiladau a'n cyfleusterau i ddarparu profiad gwell o weithio.
- Yn rhoi dull gweithio hyblyg ar waith (o bell ac yn y swyddfa) sy'n cefnogi lles staff ac yn bodloni anghenion busnes.

Mesur ein Llwyddiant

Adeiladu sylfaen gynaliadwy o roddwyr sy'n bodloni anghenion clinigol ac yn cynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

- % y rhoddwyr bôn-gelloedd newydd 16 i 30 oed sy'n cael eu recriwtio.
- % y rhoddwyr gwaed cyflawn ac afferesis newydd sy'n cael eu recriwtio.
- % yr achlysuron y bu'n rhaid i GGC fewnforio gwaed.
- % y cynnydd yn ein cronfa rhoddwyr o leiafrifoedd ethnig.
- % o'n cronfa rhoddwyr sy'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Darparu profiad o'r radd flaenaf i roddwyr.

- % y rhoddwyr sydd o'r farn bod eu profiad yn rhagorol.
- % y gohiriadau mewn clinigau.
- % y rhoddion llwyddiannus.
- % y rhoddwyr sy'n argymell Gwasanaeth Gwaed Cymru.
- Canmoliaeth.
- Pryderon.

Sbarduno'r defnydd doeth o waed ledled Cymru.

- % y gwaed O D negatif yn erbyn materion gwaed cyffredinol.
- % y cydrannau gwaed sy'n cael eu gwastraffu mewn ysbytai ledled Cymru.
- % yr arbed celloedd sy'n cael ei ddefnyddio fel dewis arall i drallwyso.
- Deilliannau llwybrau anaemia.

Ansawdd, diogelwch a gwerth: ei wneud yn iawn y tro cyntaf.

- % y cydrannau gwaed y mae eu hamser wedi dod i ben.
- % y galw am gydraddau gwaed a fodlonwyd.
- % amseroedd prosesu Profion Cleifion.
- % y canfyddiadau difrifol gan reoleiddwyr a chyrff proffesiynol.
- % y digwyddiadau anffodus difrifol.
- % y digwyddiadau "byth".
- % boddhad cwsmeriaid ysbytai.
- % y gydymffurfiaeth â chanllawiau a safonau.
- Lefelau cynhyrchedd.

Cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, datblygu ac arloesi i wella canlyniadau i'n cleifion a'n rhoddwyr.

- Effaith ein hymchwil a datblygu.
- Staff sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, datblygu ac arloesi yn rheolaidd.
- Effaith ein harloesedd.

Gwasanaethau cynaliadwy sy'n darparu'r gwerth gorau i'n cymunedau.

- Defnydd dŵr.
- Defnydd ynni.
- Ffynonellau adnewyddadwy.
- Ôl troed carbon yr ystâd.
- Enillion bioamrywiaeth net: gwerth cyfalaf naturiol.
- Asesiad datblygu cynaliadwy: ein cyfraniad i gymunedau.
- Gwerth cymdeithasol: ein cyfraniad i gymdeithas.
- % y fflyd sy'n drydan/hybrid.

Datblygu pobl wych a lle gwych i weithio.

- % presenoldeb yn y gwaith.
- % yr hyfforddiant gorfodol a statudol.
- % y staff sydd wedi ymgymryd â chyfleoedd addysg a hyfforddiant.
- % y staff sydd o'r farn ein bod yn gyflogwr rhagorol.
- % y staff a fyddai'n ein hargymell fel cyflogwr i'w teulu neu ffrindiau.
- % y gweithlu sy'n siarad Cymraeg.
- Amrywiaeth ein gweithlu.

Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblannu ar gyfer y Dyfodol

Gwasanaeth Gwaed Cymru